
CAERDYDD

CARDIFF

DINAS A SIR CAERDYDD
CITY AND COUNTY OF CARDIFF

| | |
|---|---|
| **GWYS Y CYNGOR** | DYDD IAU, 27 IONAWR 2022 |
| **COUNCIL SUMMONS** | THURSDAY, 27 JANUARY 2022, |

Fe'ch gwysir I fynychu cyfarfod **CYNGOR SIR DINAS A SIR CAERDYDD**, a gynhelir o bell ar Dydd Iau, 27 Ionawr 2022 at 4.30 pm I drafod y materion a nodir yn yr agenda atodedig.



**Davina Fiore**
**Cyfarwyddwr Llywodraethu a Gwasanaethau Cyfreithiol**

Neuadd y Sir
Caerdydd
CF10 4UW

Dydd Gwener, 21 Ionawr 2022

## RECORDIO CYFARFOD

Bydd y cyfarfod hwn yn cael ei recordio â'r bwriad o'i ddarlledu ar wefan y Cyngor yn ddiweddarach. Bydd y cyfarfod cyfan yn cael ei recordio, ac eithrio pan fo eitemau cyfrinachol neu eitemau a eithrir. Caiff copi o'r cyfarfod ei gadw yn unol â pholisi cadw data'r Cyngor.

Os ydych yn gwneud sylw yn y cyfarfod hwn, ystyrir eich bod wedi cydsynio i gael eich ffilmio a/neu eich recordio.

Os oes gennych gwestiynau ynghylch gwe-ddarlledu cyfarfodydd, cysylltwch â'r Gwasanaethau Pwyllgorau trwy ffonio 02920 872020 neu e-bostio Gwasanethau Democrataidd

| *Eitem* | | *Tua Amser* | *Max Amser* |
|---|---|---|---|
| **1** | **Ymddiheuriadau am Absenoldeb**<br><br>*Derbyn ymddiheuriadau am absenoldeb.* | 4.30 pm | 5 mins |
| **2** | **Datgan Buddiannau**<br><br>*Derbyn datganiadau buddiannau (i'w gwneud yn unol â Chod Ymddygiad yr Aelodau)* | | |
| **3** | **Cofnodion** *(Tudalennau 9 - 46)*<br><br>*Cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 25 Tachwedd 2021 fel gwir gofnod.* | | |
| **4** | **Cwestiynau Cyhoeddus**<br><br>*Clywed y cwestiynau a gyflwynwyd gan Aelodau'r Cyhoedd o flaen llaw.* | 4.35 pm | 5 mins |
| **5** | **Deisebau**<br><br>*Derbyn deisebau gan Aelodau Etholedig i'r Cyngor.* | 4.40 pm | 5 mins |
| **6** | **Cyhoeddiadau'r Arglwydd Faer**<br><br>*Clywed cyhoeddiadau'r Arglwydd Faer gan gynnwys Cydnabyddiaethau a Gwobrau.* | 4.45 pm | |
| **7** | **Adroddiad ar Adolygiad Tair Blynedd y Datganiad o'r Polisi Trwydded Gamblo.** *(Tudalennau 47 - 100)*<br><br>*Adroddiad Pennaeth y Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir* | 4.50 pm | |
| **8** | **Adroddiad ar Ddatganiad Cyngor Amrywiol** *(Tudalennau 101 - 142)*<br><br>*Adroddiad Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd.* | 5.05 pm | |
| **9** | **Adroddiad Newidiadau i'r Cyfansoddiad** *(Tudalennau 143 - 148)*<br><br>*Adroddiad y Cyfarwyddwr Llywodraethu a Gwasanaethau Cyfreithiol a'r Swyddog Monitro* | 5.20 pm | |
| **10** | **Datganiadau Aelodau'r Cabinet** *(Tudalennau 149 - 184)*<br><br>*Derbyn datganiadau gan yr Arweinydd ac Aelodau'r Cabinet* | 5.30 pm | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **11** | **Hysbysiad o Gynnig 1**<br><br>Cynigiwyd gan y Cynghorydd Mia Rees<br>Eiliwyd gan y Cynghorydd Mike Jones-Pritchard<br><br>*Mae'r Cyngor hwn yn nodi:*<br><br>*Ansawdd a gwerth gweithwyr ieuenctid a gwaith ieuenctid sy'n cefnogi pobl ifanc yng Nghaerdydd*<br>*Bod gweithwyr ieuenctid yn fodelau rôl gwerthfawr i bobl ifanc*<br>*Y rôl allweddol sydd gan waith ieuenctid wrth gefnogi pobl ifanc i wireddu eu potensial llawn*<br>*Y gall canolfannau ieuenctid fod yn rhan bwysig o gymunedau*<br>*Gwaith caled ac ymroddiad y gwirfoddolwyr sy'n gweithio gyda phobl ifanc ledled Caerdydd*<br>*Y partneriaid sy'n gweithio gyda'r Cyngor i gyflawni gwaith ieuenctid o ansawdd yng Nghaerdydd*<br>*Nid yw anghenion pobl ifanc wedi'u cyfyngu i un arc benodol yng Nghaerdydd ac er bod amddifadedd yn arwain at fwy o angen, mae angen ym mhob ward*<br>*Mae'r cysyniad Cymdogaeth 15 munud yn cynnwys pobl ifanc, eu hanghenion a mynediad i gyfleusterau*<br><br>*Mae'r Cyngor hwn yn galw ar y Cabinet i:*<br><br>*Sicrhau bod gweithwyr ieuenctid cymwysedig yn gallu cwmpasu Caerdydd gyfan gan eu galluogi i gyrraedd pobl ifanc lle bynnag y maent a phryd bynnag y bo'u hangen*<br>*Ymchwilio i'r cydlynu rhwng gweithwyr ieuenctid a'r heddlu a sicrhau bod arferion gorau ar waith ledled Caerdydd gyfan mewn materion sy'n ymwneud â phobl ifanc.*<br>*Sicrhau bod gan bobl ifanc, waeth ble yn y ddinas y maent yn byw, fynediad i gyfleusterau ieuenctid a gallant gael gafael ar gymorth yn seiliedig ar waith ieuenctid pan fydd ei angen arnynt*<br>*Dod ag adroddiad sy'n amlinellu sut y gellir gwella'r gefnogaeth ar draws y ddinas o fewn 3 mis* | 6.15 pm | |
| **12** | **Hysbysiad o Gynnig 2**<br><br>Cynigiwyd gan y Cynghorydd Neil McEvoy<br>Eiliwyd gan y Cynghorydd Lisa Ford<br><br>*Mae'n ofid i'r Cyngor hwn fod cynifer o ganolfannau ieuenctid a gynhelir gan y Cyngor wedi'u cau ledled y Ddinas o dan y Weinyddiaeth Lafur ac yn galw am* | 6.45 pm | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | *adroddiad ar*<br><br>*ailadeiladu Gwasanaeth Ieuenctid Caerdydd ac ailagor canolfan ieuenctid newydd ym mhob ardal lle mae un wedi'i chau ers mis Mai 2012, ac*<br><br>*ar ôl llwyddo i ailagor yr holl ganolfannau ieuenctid blaenorol, ceisio cynyddu'r ddarpariaeth ymhellach.* | | |
| **Egwyl** | | | |
| **13** | **Hysbysiad o Gynnig 3**<br><br>Cynigiwyd gan y Cynghorydd Norma Mackie<br>Eiliwyd gan y Cynghorydd Ashley Lister<br><br>*Argyfwng Ynni Cenedlaethol*<br><br>*Mae'r cyngor hwn yn cydnabod yr argyfwng ynni digynsail sy'n wynebu llawer o aelwydydd ledled Caerdydd, Cymru a'r DU. Yn ystod y misoedd i ddod bydd mwy a mwy o aelwydydd yn gweld cynnydd o faint na welwyd erioed o'r blaen wrth i'r cap ar brisiau ynni gael ei ddileu neu fod cytundebau ynni'n dod i ben.*<br><br>*Daw hyn ar ben argyfwng costau byw a grëwyd gan effeithiau Brexit a'r Pandemig Covid sydd eisoes wedi gweld gwasgfa ddigynsail ar incwm pobl.*<br><br>*Mae chwyddiant yn parhau'n uchel iawn sy'n rhoi pwysau enfawr ar gyllidebau cartrefi gan nad yw enillion wedi cynyddu ar yr un raddfa â phrisiau, gan arwain at dynhau cyllidebau teuluol a phobl yn waeth eu byd.*<br><br>*Mae costau ychwanegol byw o ddydd i ddydd eisoes yn effeithio'n negyddol ar bob cartref ledled Caerdydd ond hyd yn oed yn fwy felly ar deuluoedd sy'n byw'n agos at dlodi – llawer ohonynt yn deuluoedd sy'n gweithio sydd, serch hynny, yn dal i fod angen ymweld â banciau bwyd ac a fydd bellach yn wynebu'r dewis ofnadwy o wresogi eu cartref neu roi bwyd ar y bwrdd. Dyma Brydain y Torïaid.*<br><br>*Fel Cyngor, byddwn yn parhau i wneud popeth o fewn ein gallu i helpu i liniaru costau ynni. Mae hyn yn cynnwys y cymorth targedig sydd ar gael i wella effeithlonrwydd ynni cartrefi a helpu'r rhai sydd mewn tlodi tanwydd, gwaith ein Gwasanaeth Cyngor Ariannol i wneud y mwyaf o hawlio budd-daliadau cymwys, a chyfeirio preswylwyr at yr opsiynau cymorth ariannol sydd ar gael a'n buddsoddiad sylweddol yng nghartrefi presennol y Cyngor, i'w gwneud yn rhatach i'w gwresogi a byw ynddynt.* | 7.30 pm | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | *Ein rhaglen adeiladu Cartrefi Cyngor, sy'n darparu niferoedd cynyddol o gartrefi carbon isel/di-garbon, sy'n defnyddio ynni'n effeithlon ar gyfer rhent cymdeithasol.*<br><br>*Fodd bynnag, dim ond drwy gamau pendant gan Lywodraeth y DU y gellir pennu'r cymorth sydd ei angen ar deuluoedd i ddelio â'r argyfwng costau byw* | | |
| **14** | **Cwestiynau ar Lafar**<br><br>*Clywed cwestiynau ar lafar i'r Arweinydd, Aelodau'r Cabinet; Cadeiryddion y Pwyllgor a/neu Aelodau enwebedig o'r Awdurdod Tân.* | 8.20 pm | |
| **15** | **Materion Brys** | 9.20 pm | |
| **Materion Cyngor nas Gwrthwynebir (9.20 pm)** | | | |
| **16** | **Pwyllgor Safonau a Moeseg - Ail-Benodi Aelodau Annibynnol**<br>*(Tudalennau 185 - 188)*<br><br>*Adroddiad y Cyfarwyddwr Llywodraethu a Gwasanaethau Cyfreithiol a'r Swyddog Monitro* | | |
| **17** | **Rhaglen o Gyfarfodydd y Cyngor**<br>*(Tudalennau 189 - 198)*<br><br>*Adroddiad y Cyfarwyddwr Llywodraethu a Gwasanaethau Cyfreithiol a'r Swyddog Monitro* | | |
| **18** | **Aelodaeth Pwyllgorau**<br>*(Tudalennau 199 - 200)*<br><br>*Adroddiad y Cyfarwyddwr Llywodraethu a Gwasanaethau Cyfreithiol a'r Swyddog Monitro* | | |
| **19** | **Penodi Llywodraeth Ysgolion yr Awdurod Lleol**<br>*(Tudalennau 201 - 204)*<br><br>*Adroddiad y Cyfarwyddwr Llywodraethu a Gwasanaethau Cyfreithiol a'r Swyddog Monitro* | | |
| **20** | **Cyfansoddiad corff llywodraethu dros dro newydd ar gyfer ysgol gynradd newydd a phenodi llywodraethwyr dros dro**<br>*(Tudalennau 205 - 208)*<br><br>*Adroddiad y Cyfarwyddwr Llywodraethu a Gwasanaethau Cyfreithiol a'r Swyddog Monitro* | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **21** | **Penderfyniad Brys**<br>*(Tudalennau 209 - 210)* | | |
| **22** | **Cwestiynau Ysgrifenedig**<br><br>*Yn unol â Rheolau Gweithdrefn y Cyngor, Rheol 17(f), caiff Cwestiynau Ysgrifenedig eu hystyried a'r ymateb ei gynnwys fel cofnod yng nghofnodion y cyfarfod.* | | |